

Walter (Walt) Whitman

Ganwyd Walter Whitman mewn gfermdy cyffredin yn West Hills, Long Island, Efrog Newydd, ar 31 Mai 1819. Roedd yn fab i Walter Whitman (1789-1855) a Louisa von Velsor (1795-1873) o Portland, ger Myrtle yn Brooklyn Efrog Newydd. Isellmynwr oedd Cornelius van Velsor, ei thad, ond roedd ei mam Naomi Williams yn hannu o gehedlaeth o forwyr Cymreig 'the great Welsh clan'. Credir fod Roger Williams (1603-1683), sylfaenydd talaith Rhos Island o'r un llinach. Yn ôl un ddamcaniaeth, credir iddo fod yn fab i James Williams, Maes Treuddyn Mawr, Cynwyl, Caio, Sir Gaerfyrddin.

Enw ei nain oedd 'Amy' Naomi Williams (m. Chwefror, 1826), un o saith o chworydd. Bu ei thad, Capten John Williams, a'i unig fab, farw ar y môr. Yr oedd yn berchennog sgwner oedd yn gwasanaethu a masnachu Dwyrain India, rhwng Efrog Newydd a Florida. Yn 1767, priododd yn Cold Spring, Swydd Queens, Efrog Newydd, lle yr oedd ei dad, Thomas Williams, oedd hefyd yn forwr, byw ar y pryd.

Symudodd Walter Whitman i Brooklyn, Efrog Newydd, pan yn bedair mlwydd oed, lle y treuliodd rai blynyddoedd yn yr ysgolion cyhoeddus. Yn ystod yr hafau, byddai yn ymweld â phentref Huntington gerllaw, ynghyd â manau eraill yn Long Island, a'r gred ar ôl hynny oedd fod y profiad a gafodd am fywyd ar y fferm a'r traeth yn un o'r dylanwadau mwyaf pwysig ar ei farddoniaeth yn ddiweddarach.

Newyddiadurwr ar 10 o bapurau

Yn dair ar ddeg oed, bu'n gweithio fel prentis i argraffydd y *Long Island Patriot*, ac yna i Swydd Suffolk (Swydd Nassau Heddiw), Efrog Newydd, a bu yno o 1836 i 1841. Yn ddiweddarach, daeth yn newyddiadurwr gyda deg neu ragor o bapurau newydd a chylchgronau. Y pwysicaf ohonynt oedd y *Democratic Review*, y bu â chysylltiad ag ef o 1841 i 1848.



Walter Whitman (1891-1892)

i'r hwn y cyfrannai storiâu yn null awduron fel Edgar A. Poe a Nathaniel Hawthorne iddo. O'r flwyddyn 1846 i 1848, ef oedd Golygydd y *Brooklyn Daily Eagle*. Yna bu yn aelod o staff y *New Orleans Crescent* ar dri mis (1848), cyn dychwelyd i Brooklyn lle bu'n Olygydd y *Brooklyn Times* (1857-59) gan gyhoeddi cyfres maith o erthyglau ar hanes cynnar Brooklyn yn y *Standard*. Ar yr un pryd, yr oedd yn cynorthwyo ei dad i adeiladu tai.

Cyhoeddi *Leaves of Grass*

Tua'r flwyddyn 1848, cychwynnodd ar y cyfnod a ddaeth i'w ddiwedd a'i uchafbwynt pan gyhoeddwyd ei gyfrol barddoniaeth, 'Leaves of Grass' yn 1855. Ymddangosodd argraffiadau eraill o'r llyfr hwnnw ym 1856 (yn cynnwys 21 o gerddi ychwanegol), 1860 (cyhoeddwyd yn Boston, yn cynnwys dwy adran newydd, 'Children of Adam a Calamus'), 1861, 1867, 1871, 1876, 1881/82, 1888/89, a 1891/92.

Dod o hyd i'w frawd clwyfedig

Bu'n teithio dinas Washington D. C. ym mis Rhagfyr, 1862, yn chwilio am ei frawd oedd wedi ei glwyfo, gyda Byddin yr Undeb, ym Mrwydr Fredricksburg, Virginia. Daeth Whitman o hyd iddo wedi gwella ond gwelodd ddigon o drueni rhyfel i sylweddoli y byddai yn rhaid i'w fywyd ef fod ynglŷn ag ef. Preswylodd yn Washington, yn ennill ychydig arian drwy gopio dogfennau, ac ymroi ei hun i'r milwyr clwyfedig mewn gwahanol ysybytai oddi amgylch y ddinas (gwaith y cyfeirir ato ganddo yn ei *Memoranda During the War*, 1875). Gweithiodd yn hollol ar ei ben ei hun, yn ddi-dâl, yn mynd oddi amgylch y wardiau i siarad â'r milwyr neu ddarllen iddynt; weithiau yn cario ffrwythau a melysion iddynt; dro arall yn ysgrifennu llythyrau i'r milwyr at eu teuluoedd, ac weithiau hyd yn oed yn cynorthwyo i wisgo'r clwyfau.


Yn 1865, cafodd swydd fel clerck yn Adran

Fewnol yr Unol Daleithiau. Ond diswyddwyd ef ar 30 Mehefin yr un flwyddyn gan yr Ysgrifennydd Mewnol oherwydd natur rhywiol ei farddoniaeth a gyhoeddwyd yn 'Leaves of Grass'. Ar ôl hynny, derbyniodd swydd fel clerck yn Swyddfa'r Twrnai Gwladol yr Unol Daleithiau (1885-73). Yr oedd yn edmygydd mawr o'r Arlywydd, Abram Lincoln a chyfansoddodd ddau ddarn o farddoniaeth i gofnodi llofruddiaeth yr Arlywydd; 'O Captain! My Captain!' a *When lilacs Last in the Dooryard Blom'ed*, sef atodiad i'w gerdd *Drum Taps* (1865).

Ei iechyd yn torri

Tarwyd ef gan y parlys yn Ionawr 1873. Bu marwolaeth ei fam ychydig ar ôl hynny yn ergyd na fu iddo byth ddyfod trosti ac o hynny ymlaen, dirywio yn raddol fu hanes ei iechyd. Bu'n ddibynnol ar ei frawd, George, am ei fywoliaeth, yn ogystal ag ar gyfraniadau gan gyfeillion a gwerthiant ei lyfrau. Treuliodd gyfnod olaf ei oes yn Camden, New Jersey, gyda'i frawd a'i chwaer-yng nghyfraith, lle y bu ef farw ar 26 Mawrth 1892 ac fe'i claddwyd ym Mynwent Harleigh, Camden.

Ymysg ei weithiau a gyhoeddyd ceir *Franklin Evans or the Inebriate* (nofel 1842); *Drum Taps* (1865); *Passage to India* (1871); *Democratic Vistas* (1871); *Memoranda During the War* (1875); *Two Rivulets* (1876); *Specimen Days and Collect* (1883); *November Boughs* (1888); *Goodbye, My Fancy* (1891). Un o'i gerddi mwyaf enwog oedd *Out of the Cradle Endlessly Rocking*.



Araf iawn fu hanes ei wlad i gydnabod ei allu. Gwawd a dirmyg a gafodd gan ei gydwladwyr. Nid oeddynt yn ei ddeall ef. Tywalltai'r wasg bob math o sarhad arno'n feunyddiol. Am fod ei arddull yn newydd, a'i feddyliau eofn, tybient mai mympwy diawen a haerlyg ysgydwai y byd llenyddol, ond crynhoai yn ei berson ei hun yr holl elfen gwrthnaws a nodweddiad y cyfnod helbulus y bu ef byw ynddo. Ymddangosodd trosiad o'i gerddi enwocaf yn ogystal â rhagarweiniad cynhwysfawr o'i waith a nodiadau ar y cerddi yn y gyfrol *Dail Glaswellt*, a olygwyd gan M. Wyn Thomas, Abertawe ac a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer ym 1995

Am fwy o wybodaeth gweler Walter Whitman gan H. Bryan Binns, a gyhoeddwyd yn 1905.

Leaves of Grass

Including

SANDS AT SEVENTY... 1st Annex,
GOOD-BYE MY FANCY... 2d Annex,
A BACKWARD GLANCE O'ER TRAVEL'D ROADS,
and Portrait from Life.

Come, said my Soul,

Such verses for my Body let us write, (for we are one,) That should I after death invisibly return, Or, long, long hence, in other spheres, There to some group of mates the chants resuming, (Tallying Earth's soil, trees, winds, tumultuous waves,) Ever with pleas'd smile I may keep on, Ever and ever yet the verses owning—as, first, I here and now, Signing for Soul and Body, set to them my name,

Walt Whitman

Wyneb-ddalen: *Leaves of Grass* (1855)